CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg / Strategic Director of Social Care and Education Services**
*Jenny Williams*

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) / Head of Education Services (Chief Education Officer)**
*Richard Ellis Owen*

Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, BAE COLWYN, LL28 4UL
Government Buildings, Dinerth Road, COLWYN BAY, LL28 4UL

At yr Ymgyngoreion
To Consultees

Gofynnwch am / Please ask for: **Wyn Jones**
**01492 575076**
**01492 541311**
wyn.jones1@conwy.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: **09/05/2016**

Annwyl Ymgynghoreion,

Ar 12 Ebrill 2016 cytunodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r cynnig canlynol ar gyfer Ardal Caerhun a Threfriw -

- Terfynu Ysgol Dolgarrog, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE
- Terfynu Ysgol Tal y Bont, Ffordd Conwy, Tal y Bont, Conwy, LL29 8QF
- Terfynu Ysgol Trefriw, Ffordd Llanrwst, Trefriw, Conwy, LL27 0RX
- Sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safle presennol Ysgol Dolgarrog, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE i fechgyn a merched 3 i 11 oed.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y cynnig a'r sylwadau a gyflwynwyd ac wedi ymateb yn unol ag anghenion Cod Trefniadaeth Ysgol 2013. Wrth benderfynu'r cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon bod:

- Manteision y cynnig yn glir ac wedi'u cynllunio'n dda a bydd ansawdd a safon yr addysg y bydd disgyblion yn ei gael yn parhau ac o leiaf yn cynnal y safonau presennol mewn amgylchedd Ysgol 21 Ganrif.

Mae'r rhesymau am y penderfyniad ynghylch y ffactorau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgol fel a ganlyn:

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn adolygu nifer y disgyblion presennol, cydraddoldeb ariannu i ddisgyblion ac addasrwydd i'r pwrpas yr adeiladau ysgol presennol yn yr Awdurdod.

Dear Consultees

On 12 April, 2016 Conwy County Borough Council's Cabinet agreed the following proposal for the Caerhun and Trefriw Area –

- Discontinue Ysgol Dolgarrog, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE
- Discontinue Ysgol Tal y Bont, Conway Road, Tal y Bont, Conwy, LL32 8QF
- Discontinue Ysgol Trefriw, Llanrwst Road, Trefriw, Conwy, LL27 0RX
- Establish a new Welsh Medium Community Primary School to be maintained by Conwy County Borough Council on the current Dolgarrog School site, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE for boys and girls aged 3 to 11 year olds.

The Authority have considered the Proposal, the comments and observations submitted, and have responded in accordance with requirements of the School Organisation Code 2013. In determining the Proposal, Cabinet were satisfied that:

- The advantages of the proposal were clear and well planned and that the quality and standard of education pupils will receive will continue to at least maintain current standards in a 21st Century School environment.

The reasons for the decision in respect to the factors outlined in the published Consultation Document in accordance with the School Organisation Code are as follows:

Conwy County Borough Council has been reviewing current pupil numbers, equality of funding for pupils and the fitness for purpose of current school buildings across the Authority.

Ysgol Trefriw has xx%, Ysgol Tal y Bont, xx% and Ysgol Dolgarrog x% of unfilled places currently.As such in 2013 it was agreed to progress with the development one school on the site of Ysgol Dolgarrog in a new building.

The anticipated timeline for the completion of the building



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Mae gan Ysgol Trefriw xx%, Ysgol Tal y Bont xx% ac Ysgol Dolgarrog xx% o leoedd gwag yn bresennol. Cytunwyd yn 2013 i fynd ymlaen â datblygu un ysgol ar safle Ysgol Dolgarrog mewn adeilad newydd.

Yr amserlen ar gyfer gorffen y gwaith adeiladu ar safle bresennol Ysgol Dolgarrog yw Awst, 2017.

Byddai'r dalgylchoedd presennol ar gyfer Ysgol Dolgarrog, Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn ymuno i greu un dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd.

Gwarentir lle i ddisgyblion sy'n bresennol yn mynychu Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn yr ysgol newydd. Bydd disgyblion yn cychwyn yn y derbyn hyd at flwyddyn 6 cyn parhau gyda'u haddysg uwchradd.

O dan Adran 54 Deddf 2013 pan fo cynigion wedi'u cymeradwyo gan Awdurdod Lleol gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru o fewn 28 diwrnod i'w ystyried:

- awdurdod lleol arall a effeithiwyd gan y cynnig
- y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithiwyd gan y cynnig
- corff llywodraethol ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n amodol i'r cynnig
- ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n amodol i'r cynnig
- sefydliad addysg bellach a effeithiwyd gan y cynnig

**Crynodeb Gwrthwynebiad**

Cafwyd nifer o wrthwynebiadau i'r cynnig. Ystyriodd Cabinet yr adroddiad gwrthwynebu ac ymatebion yr awdurdod cyn dod i'w penderfyniad. Mae'r adroddiad Gwrthwynebu ar gael ar safle we Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy www.conwy.gov.uk/ardalcaerhunatrefriw.

works on the current Ysgol Dolgarrog site is August, 2017.

The current catchment areas for Ysgol Dolgarrog, Tal y Bont, and Ysgol Trefriw would join to create one new catchment area for the new School.

Pupils currently attending Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont and Ysgol Trefriw would be guaranteed a place within the new school. Pupils will enter the school at Reception through to Year 6 before continuing with their Secondary education.

Under section 54 of the 2013 Act where proposals have been approved by a Local Authority the following bodies may within 28 days refer the proposal to the Welsh Ministers for consideration;

- Another Local Authority affected by the proposal
- The appropriate religious body for any school affected by the proposal
- The Governing Body of a voluntary or foundation school subject to the proposal
- A trust holding property on behalf of a voluntary or foundation school subject to the proposal
- A further education institution affected by the proposal

**Objection Summary**

A number of objections to the proposal were received. Cabinet considered the objection report and the authority's responses before coming to their decision. The objection report is available on Conwy County Borough Council's website at www.conwy.gov.uk/caerhunatrefriwarea

| | |
|---|---|



Richard Ellis Owen
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)**
**Head of Education Services (Chief Education Officer)**